**CYNGOR TREF LLANFAIRFECHAN TOWN COUNCIL**

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan LL330AB**
**Maer Cyng Nia Jones Dirprwy Faer Cyng Sharne-Marie Bellis**

**AGENDA Nos Fercher Tachwedd 12fed, 2025**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Microsoft Teams**

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd

Yn bresennol: Rheolwr Perygl Llifogydd ac Isadeiledd CBSC – Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Llanfairfechan

5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Hydref 22ain, 2025 (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth am drefniadau'r archebiant a chyllideb ar gyfer 2026/27
7. Derbyn cais grant s 137 gan Glwb Pêl-droed Llanfairfechan
8. Derbyn adborth am yr Ŵyl Ferlod, Noson Tân Gwyllt a Gorymdaith Lusernau a Sul y Cofio
9. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer y Dathliad Gwirfoddolwyr a'r Ffair Nadolig
10. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a thaliadau cyfredol ar gyfer Tachwedd 12fed, 2025

| **Taliadau i'w cyflwyno** |
|---|
| **1. Taliadau staffio a phensiwn ar gyfer Tachwedd 2025 - £5000.00** |
| **2. Gŵyl Ferlod Neuadd Gymunedol Llanfairfechan Anfoneb Rhif INV441 £250.00** |
| **3. Worldcare skips 026919 sgip gymunedol Ffordd yr Orsaf £258.00** |
| **4. REIM DTC: Simply Books taliad blynyddol £299.52 / Ffi flynyddol diogelwch data Avast £73.56** |
| **5. Cyngor Llyfrau Cymru gwerslyfr Cymraeg £15.50** |
| **6. Gwefrwr Amazon i'r Chromebook £10.98 / Llygoden gyfrifiadur £14.99** |
| **7. Aelodaeth Un Llais Cymru £777.00** |
| **8. Hyfforddiant i Gynghorwyr Un Llais Cymru – Cyng Griffiths £40.00 a Chyng Bellis £40.00** |
| **9. Chris Potter Peiriannydd sain ar gyfer Sul y Cofio £100** |
| **10. Gareth Roberts £50 danfon y gazebo a'r llusernau Tachwedd 8fed** |
| **11. Tân Gwyllt £1800 am dân gwyllt tawel** |
| **12. Gwasanaeth Ambiwlans ar gyfer digwyddiadau Tân Gwyllt, Sul y Cofio a Marchnad Nadolig £972** |
| **13. Tammy Hales peintiwr wynebau yn y Farchnad Nadolig £300.00** |
| **14. Mince Peis i'r stondinwyr £120.00** |
| **15. Rhoddion i adlonwyr digwyddiadau Nadoligaidd Côr Y Penrhyn / Ghostbuskers £250.00** |
| **16. S137 Grant Ysgol Babanod & Ysgol Pant y Rhedyn cost aelodaeth yr Urdd £3000.00** |
| **Taliadau ôl-ddyddiedig** |
| **1. Nwyddau anifeiliaid anwes – bagiau baw cŵn a chyflenwyr £179.20** |
| **2. Theatr Prysor Gwŷl Ferlod 2025 £4500.00** |
| **3. Taliad arian parod i Grŵp Gwerin Llanrwst ar gyfer digwyddiadau Gŵyl Ferlod a Thân Gwyllt £250.00 x 2** |
| **4. Batala Bangor (drymwyr ar gyfer digwyddiad) £450.00** |

11. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:
    0/52921 Tu Hwnt i'r Afon 9 Y Clos Llanfairfechan LL33 0AG
12. Derbyn gohebiaeth
13. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau
14. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w hystyried a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

**Nos Fercher Tachwedd 12fed, 2025**

**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor ac ar-lein dros Teams**

**COFNODION**

**Yn bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis; Maer Nia Jones; Cyng Penny Andow; Cyng Charlotte Davies; Cyng Leena Farhat; Cyng Andrew Hinchliff BEM. Cyng Chris Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Christine Roberts; Cyng Preben Vangberg Clerc y Dref: Jayne Neal**

**1. Croesawodd y Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis bawb i'r cyfarfod a rhannodd yr wybodaeth weinyddol gyffredinol. Cytunwyd i recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12) Cyng Rhys Griffiths.**

**Nodwyd bod Cyng Gareth Wyn Jones wedi anfon llythyr ymddiswyddo oherwydd pwysau gwaith, at y Cyngor Tref. Mae e-bost wedi ei anfon yn diolch i'r cynghorydd am eu gwaith a'u cefnogaeth i Gyngor Tref Llanfairfechan dros y blynyddoedd. Y Clerc i ddechrau ar y broses o hysbysebu'r swydd wag hon yn ward Pandy ac ail-hysbysebu swydd wag ward Bryn. Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Dim Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**Yn bresennol: Rheolwr Perygl Llifogydd ac Isadeiledd CBSC – Cynllun Amddiffyn rhag Llifogydd Llanfairfechan a phedwar preswylydd ar-lein. Rhoddwyd diweddariad am statws presennol y cynlluniau ar gyfer promenâd Llanfairfechan.**

**1. Y cylch gwaith ydy amddiffyn yr arfordir a lleihau perygl llifogydd, ac fe gaiff y cynllun arfaethedig ei ariannu 100% gan Lywodraeth Cymru (LlC) drwy'r cam dylunio a 75% o gyllid LlC a 25% o gyllid CBSC wedi'i rannu trwy'r cam adeiladu. Mae'r dyluniad wedi'i dod gan dîm prosiect CBSC gyda chyngor proffesiynol ar berygl llifogydd gan HR1 LTD. Mae'r cynllun ar gam Achos Busnes Llawn ar hyn o bryd, a dyma'r cam datblygu olaf cyn ei gyflwyno'n derfynol i LlC. Mae HR1 wedi nodi'r peryglon llifogydd a hefyd wedi defnyddio profiad go iawn y llifogydd ym mis Ebrill 2024. Y cynllun arfaethedig ydy:**

a. **Codi'r brif wal môr i uchder o 4 troedfedd o leiaf. Ar hyn o bryd mae ychydig o dan neu oddeutu 3 troedfedd.**
b. **Codi'r wal eilaidd ar y promenâd dwyreiniol sydd ar hyn o bryd yn is ac yn dioddef o ddŵr yn mynd drosti. Mae'r Achos Busnes Llawn (ABLl) wedi cael ei herio ar y cam trwyddedu morol oherwydd y nodau yng nghamau tymor hir Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru. Mae'r polisi sydd ar waith ar gyfer ardal Llanfairfechan yn seiliedig ar gyfnodau amser gwahanol: Cyfnod 1 (2005 - 2025) Daliwch y Llinell; Cyfnod 2 (2025 - 2055) - Daliwch y Llinell: Cyfnod 3 (2055 - 2105) - Ail-alinio dan Reolaeth. Mae gan hyn oblygiadau ar gyfer dyfodol y promenâd gan fod Ail-alinio dan Reolaeth yn cael i ddisgrifio fel 'ldio rhywfaint o dir i'r môr gan dynnu'r amddiffynfeydd gyfeiriad y tir er mwyn ffurfio amddiffynfa fwy cynaliadwy yn y tymor hir'. Ni chaiff y cyllid gan y Llywodraeth ei gytuno os ydy'r cynllun yn gwrthdaro â'r cynllun traethlin. Felly, bydd y cynllun i gynyddu uchder y wal goncrit, a fydd yn para 100 mlynedd, yn groes i bolisi Cyfnod 3 Ail-alinio dan Reolaeth mewn 30 mlynedd. O ganlyniad, mae CBSC, ynghyd â Chyngor Gwynedd, yn datblygu dadleuon i herio'r atalyddion polisi hyn. Nodwyd, fel poblogaeth ynys, bod cynlluniau rheoli glannau yn mynd i fod yn fwyfwy allweddol yng nghynlluniau dyfodol trigolion y DU.**

**2. Oherwydd yr oedi gyda'r ABLl penderfynwyd y caiff mesurau dros dro eu gwneud er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd sy'n digwydd yr adeg yma o'r flwyddyn. Y bwriad ydy gosod y mesurau hyn cyn gynted â phosibl a gobeithio caiff y gwaith ei wneud o fewn cyfnod o 12 wythnos:**

a. **Gosod system llifddorau ar y promenâd. Caiff un ei gosod ar ffordd Glan y Môr yn ystod stormydd ac fe gaiff llifddorau hefyd eu gosod ar ddiwedd y ddwy lôn ddwyreiniol. Mae'r deunyddiau wedi'u harchebu a byddant yn cael eu dosbarthu ymhen 6-8 wythnos ac mae'r contractwyr yn barod i gwblhau'r prosiect cyn llanw disgwyliedig y gwanwyn.**

**3. Cyfle i ateb cwestiynau gan drigolion a'r cynghorwyr:**

**1. Gofyn am gadarnhad amserlenni a lleoliad y llifddorau: cafodd hyn ei gadarnhau fel yr uchod. Amserlen ar gyfer her yr ABLl ar gyfer y cynllun traethlin - amhosibl dweud ar y funud ond ni fydd yn 10 mlynedd. Trigolyn yn bryderus iawn na fydd y cynllun hwn yn cael ei ganiatáu yn yr hirdymor. Awgrymwyd ei bod yn debygol y bydd Cyfnod 3 Ail-alinio dan Reolaeth yn dod yn fater byw i sawl sir a bydd chwydd o dystiolaeth i helpu i osod yr her. Bydd CBSC yn gweithio'n galed ar gael cynllun cydymffurfio mewn lle. Mae'r trigolion yn awyddus i roi eu cefnogaeth i'r her hon a byddant yn lleisio eu barn pe gofynnir iddynt.**

2. Y llifogydd yn nhwnnel dwyreiniol Shore Road Sicrhaodd rheolwr CBSC y trigolion y bydd y gwaith ar y falf yn mynd rhagddi fel rhan o'r gwaith dros dro i amddiffyn y promenâd ac felly caiff ei wneud cyn gynted â phosibl (er, efallai na fydd wedi'i ddatrys ymhen 12 wythnos).
3. Ymholiad am fap polisi'r draethlin yng nghoedwig Bryn y Neuadd - Bydd y Rheolwr yn gwirio'r wybodaeth hon ac yn adrodd yn ôl.
4. Dywedodd trigolion eu bod wedi dioddef llifogydd ym mis Ebrill 2024 – pryderon y bydd y polisi hwn yn golygu na chaiff unrhyw beth ei wneud Mae eiddo eisoes yn dioddef o lifogydd yn fwy rheolaidd nag unwaith mewn 100 mlynedd ac maent yn dioddef y canlyniad o beidio â gallu cael yswiriant. Nid ydy'r yswiriant yn yswirio fflatiau lluosog ac mae trigolion yn talu cymaint â £6000, os gallant gael yswiriant o gwbl. Mae modd ateb rhai o'r ymholiadau eraill gydag ymatebion trigolion fel llifddorau a falfiau ar eiddo. Bydd y mesurau dros dro mewn lle cyn llanw'r gwanwyn, ac rydym yn gobeithio y bydd hyn yn tawelu meddwl y trigolion.
5. Pryderon am lifogydd ar flaen eiddo. Nodwyd bod gan lawer mwy o eiddo lifddorau ar hyd y blaen ac yn dilyn mesurau i amddiffyn eu heiddo rhag llifogydd. Mae hyn yn cynnwys y falfiau ar gyfer draeniau a Floodsax. Cafodd y trigolion eu hannog i anfon e-bost at swyddfa@llanfairfechan.net i godi unrhyw broblemau eraill.
6. A fyddai'r Cynllun Rheoli Traethlin yn effeithio ar y gwaith ar y wal eilaidd? Na - ni chaiff ei effeithio. Mae gwaith ar y wal hon eisoes yn ddewis ar gyfer yr ABLl ac fe gaiff ei ystyried fel rhan o'r darlun ehangach.
7. Pryderon am berchnogaeth tir Nid ydy rhannau o Lanfairfechan wedi'u cofnodi ar y gofrestrfa tir ac mae hyn yn effeithio ar sut caiff yr ardaloedd hyn eu rheoli. Mae rhai pwyntiau ar y draethlin yn aneglur, ac efallai y bydd angen ystyried hyn.
8. A fydd y cynnydd yn uchder y wal eilaidd yn cael ei gynnwys yn y gwaith dros dro i ddiogelu eiddo? Na fydd, nid oes modd gwneud hyn y tu allan i'r ABLl. Caiff ei gynnwys yn yr ABLl gan nad oes modd gwneud gwaith adeiladu bob yn dipyn, oherwydd anghenion ariannu. Mae'r trigolion yn pryderu am yr amserlenni, a nodwyd bod trigolion yn teimlo bod y wal eilaidd yn amddiffyniad pwysig. Mae CBSC wedi casglu gwybodaeth dda am y prosesau o'r cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd eraill, a bydd hyn yn helpu i fireinio'r cynlluniau yn Llanfairfechan. Bydd y rheolwr yn anfon gwybodaeth ymlaen am y gwaith dros dro, gwybodaeth am y cynllun rheoli traethlin, y falf ar gyfer y twnnel a gwybodaeth ddilynol ynglŷn â'r ymholiadau yswiriant. Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau.

Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Hydref 22ain, 2025 (DLlL1972 Atodlen 12)

Cafodd y rhain eu nodi wedi eu darllen a doedd dim materion yn codi. Bydd y Clerc yn paratoi Rhestr Weithredu ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr gan fod angen derbyn ychydig fanylion gan y Dirprwy Faer o'r cyfarfod diwethaf oedd ar wyliau blynyddol.

Cynigydd Cyng C Jones Eilydd Cyng N Jones — Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi

6. Derbyn gwybodaeth am drefniadau'r archebiant a chyllideb ar gyfer 2026/27

Nodwyd bod y tîm wedi addasu rhai o'r penawdau cyllideb yn barod ar gyfer symud i'r system gyfrifyddu ar-lein Scribe a diweddariadau cyffredinol i'r rhaglen waith flynyddol. Nodwyd bod cyfanswm colofn newydd y gyllideb TG a diogelu data yn cynnwys cyllideb gwefan/TG a llungopÏwr ac mae'r cyfansymiau'n cynnwys cost i symud e-byst y cynghorwyr i system 'llyw.cymru' ac ychwanegu aelodau at system SharePoint. Dyma'r cyfeiriad gaiff ei ffafrio ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus ac mae hefyd wedi'i ddiogelu'n well rhag gwe-rwydo. Mae'r holl newidiadau hyn wedi'u cynllunio i broffesiynoli'r systemau a symleiddio'r gwasanaeth. Cynigwyd ar gytuno dros dro ar y newidiadau TG fel bod modd gwneud cynlluniau cychwynnol mewn pryd ar gyfer newid pan fydd angen adnewyddu'r tystysgrifau presennol. Cytunwyd ar hyn i gyd yn unfrydol dros dro. Trafodwyd cyllideb yr archebiant yn fanwl, a chytunwyd bod y gyllideb ddrafft yn fan cychwyn da. Bydd y Pwyllgor Cyllid a Staffio yn cyfarfod ar y cyd i drafod cynlluniau staffio a newidiadau i'r gyllideb ymhellach yn barod ar gyfer y trafodaethau yn y cyfarfod archebiant olaf ym mis Ionawr.

Penderfynwyd derbyn a nodi

7. Derbyn cais grant s 137 gan Glwb Pêl-droed Llanfairfechan

Roedd hwn wedi'i ddosbarthu yn flaenorol a nodwyd ei fod wedi'i ddarllen. Roedd pawb yn cefnogi'r grant a nodwyd bod y pwyllgor yn gwneud gwaith gwych yn gwella eu gwasanaeth i'r gymuned.

Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng C Davies — Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi

8. Derbyn adborth am yr Ŵyl Ferlod, Noson Tân Gwyllt a Gorymdaith Lusernau a Sul y Cofio

Nodwyd bod y penwythnos o ddigwyddiadau wedi mynd yn dda iawn ac roedd llawer o adborth cadarnhaol gan drigolion a phartneriaid. Rhannwyd yr wybodaeth ganlynol am y niferoedd:

| Event name | Date | Activity | Headcount numbers |
|---|---|---|---|
| Ponyfest lantern workshop | 01/11/2025 | Lanterns made = 38 | 80 inc parents |
| Ponyfest walks | | Awaiting details | *24 people |
| Ponyfest Twmpath and parade | 01/11/2025 | Parade, dance, cabaret | 50 age range from 2yrs – 80yrs |
| Lantern parade workshops | 08/11/2025 | Lanterns made = 50 | 100 inc parents |
| Lantern parade and fireworks | 08/11/2025 | Lantern on promenade | Approx. = 1200 |
| Llanfairfechan Remembrance | 09/11/2025 | Parade and ceremony | Approx.= 200 |
| Llanfairfechan Sailing Club | 8/11/2025 | Folk musicians | Approx = 50 |

**Diolch i'r holl gynghorwyr, gwirfoddolwyr, staff a'r rhai fu'n cymryd rhan drwy helpu a chyfrannu at y gwaith trefnu ac yn ystod y penwythnos ei hun. Cafodd dros £550.00 ei godi o'r torchau ar gyfer Cronfa Pabi y Lleng Brydeinig Frenhinol** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**9. Derbyn gwybodaeth a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer y Dathliad Gwirfoddolwyr a Ffair Nadolig**

**Bydd digwyddiad Dathliad Gwirfoddolwyr ar ddydd Iau Rhagfyr 4ydd – gyda bwffe, cyflwyno tystysgrifau a chyfle i gymdeithasu. Cyfarfod cynllunio dydd Iau Tachwedd 18fed am 10yb – mae croeso i bawb ddod i helpu. Marchnad a Ffair Nadolig – mae popeth yn dod at ei gilydd yn dda.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**10. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a thaliadau cyfredol ar gyfer Tachwedd 12fed, 2025**

**Dim materion yn codi**

**Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng N Jones** **Penderfynwyd yn unfrydol i gymeradwyo a nodi**

**11. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:**

**0/52921 Tu Hwnt i'r Afon 9 Y Clos Llanfairfechan LL33 0AG Fel adeilad rhestredig, byddai'r Cyngor Tref yn gofyn i'r ymgeisydd ddilyn cyngor swyddogion cynllunio a chadwraeth CBSC** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**12. Derbyn gohebiaeth**

**Caiff gohebiaeth ei thrafod yn y cyfarfod nesaf.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**13. Derbyn adroddiadau o gyfarfodydd a digwyddiadau**

**Darganfod Llanfairfechan Cafodd y Cynllun Lleoedd ei drafod, ac mae'r arolwg wedi'i ohirio gan fod yr un RLDP yn digwydd yn fuan. Bydd y grŵp yn defnyddio Kickstarter fel man cychwyn ar gyfer y cynllun newydd. Mae cynllun ar gyfer cylchlythyr partneriaeth – efallai y bydd hwn allan yn y flwyddyn newydd. Y Clerc i gael dyfynbrisiau ar gyfer cyflwyno.**

**Llyfrgell Gymunedol Llanfairfechan Nid ydy'r CLG wedi'i arwyddo gan fod pryderon o hyd amdano gan fod CBSC yn disgwyl gormod o atebolrwydd i'r adeilad fel gwirfoddolwyr. Mae trafodaethau ar fynd i geisio cydweithio ar gwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch. Mae angen eglurhad pellach am y bartneriaeth. Bydd y sesiwn Gofod Cynnes yn parhau ar ddydd Gwener.**

**Gefeillio Trefi Mae 51 lle ar gyfer y daith i Pleumeleuc gyda 38 lle yn llawn yn barod. Mae Clwb Pêl-droed Llanfairfechan yn bwriadu mynd â rhai aelodau drosodd ar y daith.**

**Cyfarfod Llywodraethwyr Pant y Rhedyn Cafodd y cyfarfod diweddar ei ganslo ac nid oes dyddiad newydd ar hyn o bryd. Mae disgwyl i Estyn ymweld dros y misoedd nesaf, felly mae'r canolbwynt ar hynny. Mae'r pennaeth wedi codi pryderon ynglŷn â diffygion yn y gyllideb - gan obeithio na fydd hyn yn arwain at golli staff. Nodwyd bod hon yn broblem i bob ysgol ar y funud, ond mae'n teimlo fel pryder difrifol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.**

**Cyfarfod PEG Plas Menai Efallai y bydd newidiadau i gyfathrebu dros y ffôn gyda'r meddyg – efallai bydd y neges bellach yn darllen a fydd galwad ffôn yn ystod y bore neu'r prynhawn. Mae nyrs i ffwrdd dros yr hirdymor felly mae prinder staff yn y feddygfa ar y funud. Bydd y Rheolwr Practis yn gweithio ym meddygfa Conwy ddau ddiwrnod yr wythnos dros y misoedd nesaf oherwydd prinder staff yn y feddygfa arall tra bod y broses recriwtio ar fynd. Nid ydy'r adborth am adrodd ar y galwadau ar y cyd yn gadarnhaol a bydd hyn yn digwydd ar wahân yn y dyfodol. Mae'r dudalen ymgynghori ar-lein yn edrych ychydig yn wahanol, a nodwyd ei fod bellach ychydig yn ddryslyd. Mae gwaith cynnal a chadw ar yr adeilad yn her ac mae gollyngiadau dŵr yn achosi problemau mewn nifer o ystafelloedd. Mae gan y feddygfa gyllideb isel iawn ar gyfer gwaith cynnal a chadw, felly mae hyn yn broblem.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**14. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w hystyried a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol**

**1. Diolch i'r Cynghorwyr wnaeth ddarllen yng ngwasanaeth Sul y Cofio - da iawn ar eich eglurder a chyflwyniad.**

2. **Mae Clwb Pêl-droed Llanfairfechan yn cael trafferth gyda baw cŵn yn cael ei adael ar eu biniau. Mae hyn wedi'i nodi ac fe gaiff gwybodaeth bellach ei chasglu.**
3. **Rydym wedi derbyn llawer o ganmoliaeth gan drigolion am y tân gwyllt a'r orymdaith lusernau.**
4. **Mae'r golau ar gefn Shore Road wedi'i ddiffodd, bydd y Cynghorydd yn rhannu'r rhif ar gyfer rhoi gwybod amdano.**
5. **Nid ydy ffordd Cae Ffynnon wedi'i chlirio eto. Y Clerc i roi gwybod i GBSC.**
6. **Pryderon am iechyd a lles rhywun sy'n cysgu'n arw ar y cob. Mae hyn wedi'i nodi a'r sefyllfa yn cael ei arsylwi.**
7. **Mae angen disodli'r post marciwr ar y cob. Y Clerc i weithredu hyn.**
8. **Mae'r cwteri yn Llanfairfechan wedi'u tagu. Y Clerc i roi gwybod am hyn a holi pryd y bydd hi'n amser am waith cynnal a chadw.**
9. **Mae llifogydd ar Ffordd Penmaenmawr yn sefyll ar y ffordd am gyfnodau hir. Y Clerc i roi gwybod am hyn.**
10. **Mae PSCO Josh yn symud ymlaen at fod yn swyddog heddlu ac rydym yn aros am newyddion am ei olynydd. Y Clerc i holi.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 9:30yh**



**Gŵyl Ferlod Llanfairfechan 2025**
**Noson Tân Gwyllt a Gorymdaith Lusernau Llanfairfechan 2025**
**Sul y Cofio Llanfairfechan 2025**

Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL